GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cyfarwyddiaeth Weithredu

CYNORTHWYYDD GWEINYDDOL RHAN AMSER

GRADDFA 4

8 awr yr wythnos

CYFLOG: £17, 419 pro-rata

Cododd y swydd dros dro uchod yng ngorsaf Dân Y Barri. Rôl deiliad y swydd yw darparu gwasanaeth cefnogi gweinyddol cyffredinol rhagorol i'r Orsaf System Ar Alwad.

Mae'r dyletswyddau yn cynnwys prosesu geiriau a diweddaru systemau cyfrifiaduron (mae profiad o ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office yn hanfodol), agor a dosbarthu llythyron, ateb ymholiadau ffôn a delio ag ymholiadau am wybodaeth gyffredinol wrth ymgysylltu â phersonél yn fewnol ac yn allanol yn ôl y gofyn.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus brofiad gweinyddol cyffredinol profedig. Rhaid bod ymgeiswyr yn gallu cyfathrebu ar bob lefel a gweithio o fewn terfynau amser gan ddefnyddio eu crebwyll eu hunain wrth ddatblygu arferion gwaith.

Bydd hi'n ofynnol i ddeiliad y swydd weithio am 8 awr yr wythnos, gan gynnwys mynychu noson Ymarfer ar dydd Mercher (tua 18:30 – 20:30). Cytunir ar weddill yr oriau yn oriau gosod gyda'r Rheolwr Llinell yn ystod yr wythnos gyntaf yn y swydd.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn gwneir penodiad.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Gellir lawr lwytho pecyn cais o dudalen Swyddi Cyfredol gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru www.decymru-tan.gov.uk neu drwy'r ffyrdd canlynol:

- ffonio 01443 232200
- e-bostio personnel@southwales-fire.gov.uk

Croesewir ffurflenni cais gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol â'r amlinelliad yn y Fanyleb Bersol. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais gorffenedig yw **hanner dydd, 23ain o Ionawr 2019.**

Mae dyddiadau'r broses ddethol i'w gadarnhau.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.